| | |
|---|---|
| **Adroddiad At:** | **Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Mai 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Cefnogi Pobl** |
| **Teitl:** | **Newidiadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl Rhanbarthol a Chenedlaethol** |

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o adroddiadau er mwyn hysbysu aelodau ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru.

Diben yr adroddiad hwn yw ymgynghori hefyd gydag aelodau ar y cynigion dros dro diwygiedig ar gyfer sefydlu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cefnogi Pobl, (atodiad 1 tudalennau 4-13).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r diweddaraf i aelodau ar y trefniadau dros dro diwygiedig a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a cheisio sylwadau i hysbysu ymateb ymgynghori Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi'r trefniadau arfaethedig cyfredol ac yn cynnig sylwadau i hysbysu ymateb ymgynghori Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Cefnogi Pobl yn rhaglen sylweddol yn cynnig gwasanaethau cymorth "cysylltiedig â thai" i ystod eang o grwpiau bregus, gan gynnwys pobl sy'n ddigartref, pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu, yr ifanc a'r bregus, pobl ag angen camddefnyddio sylweddau, cyn droseddwyr, pobl sy'n dianc rhag trais domestig a phobl hŷn. Y nod yw galluogi iddynt gynnal cartref diogel wrth ddatblygu agweddau eraill ar eu bywydau gan hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i gwerthuso ar lefel genedlaethol ac wedi dangos ei bod yn cyflwyno buddion ariannol positif iawn sydd gyfwerth â £1.68 am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi yn ychwanegol at fuddion heb fod yn rhai ariannol megis:-

- gwell ansawdd bywyd ar gyfer yr unigolyn gan gynnwys mwy o annibyniaeth;
- gwell iechyd;
- llai o ddibyniaeth ar berthnasau a gofalwyr;
- byw'n annibynnol, gan gynnwys mwy o ddewis i unigolion o ran llety,
- ffordd o fyw a darparu sgiliau er mwyn galluogi'r dewis hwn;
- gallu cynyddol i gyfranogi yn y gymuned. Gan gynnwys llai o unigedd neu allgau cymdeithasol, a mwy o sefydlogrwydd ar gyfer pobl â bywydau anhrefnus;
- gostyngiad yn ofn trosedd; a,
- mynediad haws at wasanaethau priodol.

Yn 2011/12, derbyniodd Sir Ddinbych £6.9m o arian trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl a ariannodd tua 2404 uned o gefnogaeth (y gallu uchaf gan gynnwys gwasanaethau warden pobl hŷn) ar unrhyw un pryd gydag ymyraethau ar wahanol ddwyster.

4.2 Comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru ac adroddwyd arno ym mis Tachwedd 2010. Roedd yr adroddiad hwn yn gwneud 25 argymhelliad, gan gynnwys argymhelliad i gyflwyno pwyllgorau amlsector, cydweithredol rhanbarthol. Ar ôl hynny fe wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn pob un o'r 25 argymhelliad.

4.3 Roedd adolygiad o'r trefniadau cefnogi pobl yn cynnwys yr argymhellion allweddol a ganlyn:

- Creu ffrwd ariannu sengl (Grant Cefnogi Pobl) a Grant Refeniw Cefnogi Pobl i'w dalu i awdurdodau lleol a ddylai barhau i gael ei neilltuo (a fydd yn cael ei alw yn Grant Rhaglen Cefnogi Pobl neu SPPG)
- Gweinyddu'r grant gan bwyllgor cydweithredol lleol a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol gan gynnwys darparwyr, prawf, iechyd ayyb. Dylai hyn fod yn fesur dros dro cyn ymdriniaeth ar draws ffiniau yn ddiweddarach
- Dosbarthu ariannu trwy fformiwla dosbarthu ar sail anghenion gyda'r Tîm Adolygu yn cynnig fformiwla dros dro
- Bwrdd Cynghori Gweinidogol (Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl) i'w sefydlu i gynghori'r Gweinidog.

Er nad yw'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar agweddau ariannol penodol y rhaglen, rhagwelir y bydd gweithredu'r fformiwla dosbarthu ar sail anghenion y cyfeirir ato uchod, yn arwain at ostyngiadau ariannu o £1.5m yn Sir Ddinbych dros gyfnod o 5 mlynedd.

4.4 Ar ôl hynny fe sefydlodd Lywodraeth Cymru Grŵp Llywio traws-sector a nifer o ffrydiau gwaith cenedlaethol er mwyn symud ymlaen wrth weithredu'r argymhellion. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol (swyddogion Cefnogi Pobl, Cymdeithas Llywodraeth

Leol Cymru, Cyfarwyddwyr Cyllid) Llywodraeth Cymru a chyrff cynrychiolwyr y darparwr Cymorth a Chartrefi Cymunedol Cymru.

4.5 Yn gynnar yn ystod y trafodaethau gweithredu, penderfynodd Huw Lewis AC, Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth y dylid sefydlu Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol o ddechrau'r trefniadau newydd, gyda dyddiad targed cychwynnol ar gyfer gweithredu ym mis Mehefin 2012. Cafodd y gofyniad hwn ei gynnwys ar ôl hynny o fewn y Compact ar gyfer Newid.

4.6 Trwy gydol y trafodaethau gweithredu, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol wedi mynegi pryderon ynglŷn â rôl arfaethedig y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, y trefniadau llywodraethu a'r potensial i hyn gynyddu'r fiwrocratiaeth.

4.7. <u>Sefyllfa Gyfredol</u>

Ar ôl yr ymgynghoriad ffurfiol, penderfynodd Llywodraeth Cymru i symud ymlaen â'r model ar gyfer y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a gymerodd atebolrwydd cyllideb oddi ar awdurdodau lleol fel y derbynnydd grant a'r corff atebol gan roi'r cyfrifoldeb dros benderfyniadau gwario i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Yn ôl y bwriad, byddai'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn bwyllgorau anstatudol ac yn cynnwys darparwyr gwasanaethau. Fe wnaeth CLlLC fynegi pryderon ynglŷn â chyfreithlondeb y model arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â rôl statudol Swyddog Adran 151. Mae'r farn hon bellach yn cael ei rhannu gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â symud ymlaen gyda'r model llywodraethu ac mae wedi cynnig dewis amgen.

4.8 Mae'r model dros dro arfaethedig newydd yn rhoi cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o dan bedwar maes eang a amlinellir fel: arolygiaeth; cyngor Gweinidogol; cynllunio a gweinyddu. Er nad yw llawer o rolau'r Pwyllgor wedi newid o'r model gwreiddiol, y gwahaniaeth sylweddol ac arwyddocaol yw y byddai'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gwneud argymhellion ar wariant lleol a rhanbarthol i'r Gweinidog a fyddai wedyn yn gwneud y penderfyniad ar adnoddau.

4.9 Mae'r model yn cynnig y byddai'r Gweinidog yn gysylltiedig â phenderfyniadau ar:

- Gwariant lleol a rhanbarthol ar wasanaethau Cefnogi Pobl
- Hawl trosglwyddo arian Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl rhwng grwpiau defnyddwyr gwasanaeth o fewn y cynllun Cefnogi Pobl lleol a rhanbarthol o fewn y rhanbarth

4.10 Mae'r ail fodel hwn hefyd wedi achosi pryderon. Fe ymddengys ei fod yn rhedeg yn groes i'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar ôl "Adolygiad

Essex" a oedd yn adnabod yr angen i Lywodraeth Cymru osod cyfeiriad strategol ac awdurdodau lleol i bennu blaenoriaethau lleol a chyflwyno gwasanaethau priodol. Yn ail, mae'n ymddangos bod y cynnig yn rhedeg yn groes i ganfyddiadau'r Adolygiad o drefniadau cefnogi pobl bresennol a oedd yn pwysleisio'r angen i leihau cymhlethdod a biwrocratiaeth ac osgoi'r oedi a grëir gan Weinidogion wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau lleol.

4.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu na fydd trosglwyddo Grant Refeniw Cefnogi Pobl yn digwydd nes bod y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi'u sefydlu'n briodol ac mae Awst 2012 yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel dyddiad i hyn ddigwydd.

4.12 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi awgrymu wrth swyddogion Llywodraeth Cymru o ystyried yr oediadau parhaus, y dryswch, a’r diffyg consensws ynglŷn â'r ffordd briodol ymlaen y dylai unrhyw newidiadau gael eu hoedi hyd at fis Ebrill 2013 a bod y flwyddyn gyfredol yn cael ei defnyddio i adeiladu a chyfnerthu cydweithrediad rhanbarthol ac i archwilio opsiynau ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Deallwn fod y cynnig hwn wedi'i wrthod hyd yma.

4.13 Ar y pwynt hwn nid oes ffordd amlwg ymlaen sy'n cael ei chefnogi gan yr holl randdeiliaid sydd wedi bod yn gysylltiedig â thrafodaethau ar weithredu argymhellion yr Adolygiad.

4.14 Yr hyn sy'n parhau'n bwysig yw cyflwyno gwasanaethau da i bobl fregus ac i reoli gostyngiad mewn adnoddau mewn ffordd mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys trwy gydweithio. Fe ymddengys y byddai proses rheoli newid wedi'i hystyried yn dda, fel y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei hyrwyddo, yn cynnig y cyfle gorau o gyflawni hyn.

4.15 **Cwestiynau ymgynghori**

- A yw'r cynnig yn ymarferol fel datrysiad dros dro?
- A oes unrhyw welliannau i'r cynnig dros dro sy'n cynnal y cydweithrediad a argymhellir gan adroddiad Aylward? [1]
- A oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r broses dyrannu grant a pro forma gwariant? (yn bennaf pwyntiau technegol gweler atodiad 1 tudalennau 14-23)

[1] Mae 'Adolygiad Annibynnol o'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru: Adroddiad Terfynol' (Adroddiad Aylward) i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru trwy glicio ar y cyswllt isod:http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/supportingpeople/publications/finalreport/;jsessionid=qTQpP6VDGJByQlXyQD8yFdLdgVrm2DyJfMXKQLr1qv6XFBGV7Dwd!1596389751?lang=en

**5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd cydweithrediad rhanbarthol a strategaeth ranbarthol ar gyfer comisiynu a chyflwyno gwasanaethau yn cyfrannu tuag at reoli'r gostyngiad mewn grant a diogelu gwasanaethau rheng flaen. Serch hynny dylem sicrhau bod y trefniadau terfynol ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn gywir ar gyfer cyflawni hyn.

**6. Faint y bydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Rhagamcanir y bydd y gostyngiad mewn grant Cefnogi Pobl yn ystod y 5 mlynedd nesaf tua £1.5m ar gyfer Sir Ddinbych.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal gwaith ymgynghori helaeth ar yr arweiniad Cefnogi Pobl Drafft a oedd yn cynnwys y cynigion cyntaf ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, a gafodd eu gwrthod ar ôl hynny.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ymgynghori'n eang ar y trefniadau dros dro diwygiedig ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol. Daw'r ail ymarfer ymgynghori hwn i ben ar 12 Mehefin 2012

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae'r Cyngor wedi bod yn ddoeth wrth sefydlu cronfa wrth gefn er mwyn helpu i liniaru ar effaith y toriadau ar ddod i'r grant Cefnogi Pobl a'r goblygiadau ynglŷn â chymhwyster rhai gwasanaethau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd na fyddant o reidrwydd yn rhan o'r trefniadau newydd. Fe ymddengys bod y cynnig diweddaraf mewn perthynas â phwerau'r pwyllgorau rhanbarthol yn groes i'r Adolygiad trwy symud penderfyniadau lleol a chyflwyno gweithdrefnau monitro a chymeradwyo rhy gymhleth. Byddai oedi hyd at fis Ebrill 2013 yn ymddangos yn opsiwn synhwyrol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w gostwng?**

Cyfeirir at y prif risgiau ym mharagraffau 4.7 a 4.10:-

- tynnu penderfyniadau ar adnoddau oddi wrth lywodraeth leol tra y byddant yn cadw atebolrwydd dros y grant
- diffyg eglurder ynglŷn ag agweddau eraill ar lywodraethu
- lefelau uwch o fiwrocratiaeth wrth weinyddu'r rhaglen
- tuedd ac oedi wrth wneud penderfyniadau
- gosod cynsail ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill

## 10. Y Pŵer i Wneud y Penderfyniad

Er mwyn pennu cynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen bolisi arall mae angen cymeradwyaeth gan yr Aelod Cabinet Arweiniol yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2291 (W,179) Rheoliad 4 (3)( c) + (d).

Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a rôl Craffu

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Arweiniol Cefnogi Pobl
Gwasanaethau i Oedolion a Busnesau
Ffôn:  01824 712300